**Ysgol Gymraeg Pwll Coch – Teulu mawr ŷm ni i gyd!**

**Cylchlythyr – Newsletter**

**06/02/2026**

## Eisteddfod Caerdydd

Bydd nifer o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Caerdydd heno yn Ysgol Glantaf. Hoffwn ddymuno'n dda i bob un ohonynt gan ddiolch yn fawr i'r staff a'r rhieni sydd wedi bod yn hyffroddi'r disgyblion dros yr wythnosau diwethaf.

## Cardiff Eisteddfod

A number of our pupils will represent the school at the Cardiff Eisteddfod tonight at Ysgol Glantaf. I would like to wish all of them well and thank the staff and parents who have been coaching the children over the past few weeks.

## Eiddo Coll

Mae canran sylweddol o'r eiddo coll sydd yn dod i'r swyddfa yn ddi-enw sydd yn golygu nad yw'r eitemau yn medru cael eu dychwelyd i'w perchnogion. Gofynnwn yn garedig eich bod yn labeli bob bocs bwyd, potel ddŵr ac eitem o ddillad os gwelwch yn dda.



## Lost Property

A significant percentage of the lost property that ends up in the office is unlabelled which means that the items cannot be returned to their owners. We kindly ask that you label each food box, water bottle and item of clothing please.

## Pêl Rwyd Cymysg Yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion Blwyddyn 6 oedd yn cystadlu yn nhwrnamaint cymysg Yr Urdd ar ddydd Mawrth! Diolch yn fawr i Mrs. Sampson a Miss. Owen am hyfforddi ar y dydd!

## Urdd Mixed Netball

Congratulations to the Year 6 pupils who competed in the Yr Urdd mixed tournament on Tuesday! Many thanks to Mrs. Sampson and Miss. Owen for coaching on the day!



## Bws Beics Pwll Coch

Braf oedd gweld 65 aelod o gymuned yr ysgol yn ymuno â'r Bws Beics wythnos diwethaf! Diolch i bob un disgybl a rhiant am eich brwdfrydedd a'ch cefnogaeth!



## Pwll Coch Bike Bus

It was great to see 65 members of the school community join the Bike Bus last week! Thank you to every pupil and parent for your enthusiasm and support!

## Cwis a Twmpath

Hoffwn eich gwahodd i Gwis a Twmpath y Gymdeithas Rhieni ar nos Wener y 13eg o Fawrth yn Neuadd Eglwys Santes Catherine am 7:30yh. Bydd yr arian a chodwyd yn mynd at gronfa'r Gymdeithas Rhieni ac yn cyfrannu at welliannau yn ein hysgol. Bydd lluniaeth ysgafn a bar i gael ar y noson! Dewch yn llu!




## Quiz and Dance

We would like to invite you to the PTA Quiz and 'Twmpath' (Dance) at Saint Catherine's Church Hall on Friday the 13th of March at 7:30pm. All money raised will contribute to school improvements. Light refreshments and a bar will be available on the night. Come and enjoy!

## Gwisgoedd Diwrnod y Llyfr a Dydd Gŵyl Dewi

Rydyn ni'n casglu hen wisgoedd Diwrnod y Llyfr a Dydd Gŵyl Dewi! Os hoffech gyfrannu unrhyw wisgoedd, mae croeso i chi eu hychwanegu at y stondin sydd ger y Dderbynfa. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i'r holl rieni sydd yn treulio amser yn trefnu ac arddangos y wisg ysgol ail-law. Diolch!

## World Book Day and St David's Day Costumes

We are collecting used World Book Day and St David's Day costumes! If you would like to donate any costumes, you are welcome to add them to the rail near the Reception. I would like to take the opportunity to thank all the parents who spend time organising and displaying the second-hand school uniform. Diolch!

## Dydd Miwsig Cymru




Byddwn yn dathlu Dydd Miwsig Cymru yn yr ysgol ar ddydd Gwener, 13/02/26, gan groesawu artistiaid a bandiau i'r ysgol yn ogystal â mwynhau disgo yn y neuadd! Hoffwn wahodd y disgyblion i'r ysgol mewn dillad coch, gwyn neu wyrdd neu wedi gwisgo fel seren bop!

## Welsh Language Music Day

We will celebrate Welsh Language Music Day at school on Friday, 13/02/26, welcoming artists and bands to the school as well as enjoying a disco in the hall! I would like to encourage the pupils to come to school dressed in red, white, or green, or dressed as a Welsh language pop star!

## Dydd Gŵyl Dewi





Bydd cyfle i'r disgyblion ddod i'r ysgol mewn gwisg traddodiadol Cymreig neu mewn lliwiau Cymru ar ddydd Llun, 02/03/26, er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi!

## St David's Day

There will be an opportunity for pupils to come to school in traditional Welsh dress or in Welsh colours on Monday, 02/03/26, to celebrate St David's Day!

## Diwrnod Y Llyfr




Byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr ar ddydd Iau, 05/03/26, gydag ystod o weithgareddau yn hyrwyddo darllen ar draws yr ysgol. Mae croeso mawr i'r disgyblion ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr!

## World Book Day

We will celebrate World Book Day on Thursday, 05/03/26, with a range of activities promoting reading across the school. Students are very welcome to come to school dressed as their favourite book character!

## 'Everyone's Invited' – Sgwrs gyda Rhieni

Yn dilyn proses ofalus o ymgynghori, cynllunio a chydweithio, mae'n bleser cynnig sgwrs i rieni ar noson y 10fed o Chwefror dan ofal yr elusen Everyone's Invited. Er mwyn sicrhau y gall pawb sydd am fynychu cael mynediad at y sesiwn, bydd yr elusen yn cynnal 2 sesiwn ychwanegol ar yr 16eg a'r 23ain o Chwefror. Bydd y sgwrs hon yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ac arweiniad manwl i rieni ar Gyfryngau Cymdeithasol a bydd yn darparu gwybodaeth fanwl am TikTok, Snapchat, Roblox a Fortnite a sut i sicrhau bod yr holl fesurau rheoli a mesurau diogelu priodol ar waith i rieni. Bydd y sgwrs hefyd yn canolbwyntio ar y cynnydd mewn misogyny ar-lein. Nod y sgwrs yw darparu cyfoeth o wybodaeth ymarferol a defnyddiol i rymuso rhieni â gwybodaeth ymarferol am ddiogelwch ar-lein a pheryglon ar-lein, ac mae'n disgyn yn amserol iawn ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2026. Bydd holl ysgolion clwstwr Glantaf yn rhan o'r digwyddiad hwn hefyd fel bod holl rieni ein hysgolion clwstwr yn gallu elwa o'r un wybodaeth.

I gofrestru ar gyfer un o'r sesiynau, dilynwch y ddolen isod. Ysgrifennwch lythrennau cyntaf eich enw a'ch cyfenw mewn colofn i gofrestru ar gyfer sesiwn (ond i weld nifer y bobl sy'n cofrestru yw'r wybodaeth hon). Caiff y wybodaeth hon ei dileu cyn gynted ag y bydd y sesiwn yn dechrau. Os bydd y sesiynau'n llawn, ychwanegwch eich enw at y rhestr aros a bydd yr elusen yn gwneud ei gorau i redeg sesiwn ychwanegol os oes digon o alw.

https://docs.google.com/spreadsheets/d/1JeF9x_vASQpS7UeuqGNFuKN-cTR4FZKl5kOkaHcbXlg/edit?usp=sharing

**Dolenni Zoom i'r 3 sesiwn:**

Chwefror, 10fed 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/82831052303

Chwefror, 16eg 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/89510962938

Chwefror, 23ain 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/86237052558

## 'Everyone's Invited' – Parent Talk

Following careful consultation, planning and co-operation, it's a pleasure to offer a parent talk on the evening of the 10th of February hosted by the charity Everyone's Invited. To ensure that everyone who wishes to attend, can gain access to the session, the charity will run 2 additional sessions on the 16th and 23rd of February. This talk will focus on providing in depth information and guidance to parents on Social Media and will provide detailed information on TikTok, Snapchat, Roblox and Fortnite and how to ensure all appropriate parental controls and safeguards are in place. The talk will also focus on the rise of online misogyny. This parent talk aims to provide a wealth of practical and useful information to empower parents with practical knowledge on online safety and online dangers, and the first session falls on Safer Internet Day 2026. Ysgol Gymraeg Pwll Coch along with all Glantaf cluster schools are a part of this event so that all the cluster school parents can benefit from the same information.

To sign up for one of the sessions please follow the link below. Please write your initials into a column to sign up for a session - this information is just to see numbers signing up. This information will be deleted as soon as the session starts. If the sessions fill up, please add your name to the waitlist and the charity will do their best to run an additional session if there is sufficient demand.

https://docs.google.com/spreadsheets/d/1JeF9x_vASQpS7UeuqGNFuKN-cTR4FZKl5kOkaHcbXlg/edit?usp=sharing

**Links to the 3 Zoom sessions:**

February, 10th from 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/82831052303

February, 16th from 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/89510962938

February, 23rd from 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/86237052558






## Ymweliad Pwll Coch i Murcia, Sbaen!

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cwmni 'International Links' dros y misoedd diwethaf ac felly'n gyffrous iawn i'ch hysbysu ein bod wedi cael ein dewis i fynychu taith i ranbarth Murcia, Sbaen am 4 noson, gan gynnwys ymweld ag Ysgol Colegio Mirasierra (https://colegiomirasierra.com )! Byddwn hefyd yn mwynhau ystod o brofiadau diwylliannol yn ogystal â'r tywydd braf a diwrnodau ar y traeth! Mae lle i 12 disgybl o Flwyddyn 6 a 3 aelod o staff ar y daith.

Rydym wrthi'n cadarnhau'r holl fanylion sydd yn cynnwys:

🚍 Cludiant o'r ysgol i'r maes awyr ym Mryste.

✈ Hedfan gyda Easyjet EJU5528, Llun 1 Mehefin, Bryste 13.10 - Alicante 16.40 [bagiau 15 kg y pen, ynghyd â bag bach].

🏨 Gwesty El Churra.

✈ Hedfan gyda Easyjet EZY2724, Gwener 5 Mehefin, Alicante 22.45 - Bryste 00.15.

🚍 Cludiant o'r Maes Awyr i'r Ysgol.

Yn anffodus, nid oes modd mynd â phob disgybl ar y daith ac felly gofynnwn yn garedig eich bod yn cwblhau'r ffurflen yma os oes diddordeb gan eich plentyn. Mi fydd proses dethol os oes mwy nag 12 disgybl yn awyddus i fynychu'r daith.

https://forms.office.com/e/4hLt2MNxkd

Byddwn yn ystyried ychydig o ffactorau, gan gynnwys:

✈ Ydy eich plentyn yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (wedi cofrestru'n swyddogol)?

✈ Ydy eich plentyn wedi bod ar wyliau tramor o'r blaen?

✈ Ydy eich plentyn wedi cynrychioli'r ysgol dros y ddwy flynedd diwethaf?

Mae'n debygol y bydd angen dewis a dethol y disgyblion sydd am fynychu, gan gynnwys tynnu enwau allan o het petai angen. Gofynnwn o flaen llaw am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth petai angen gwneud. Diolch yn fawr!

Er na fydd costau unigol i bob disgybl, mae'n debygol y byddwn yn trefnu gweithgaredd codi arian yn ystod tymor yr Haf!

## Pwll Coch visit to Murcia, Spain!

We have been working closely with the company 'International Links' over the last few months and are very excited to inform you that we have been chosen to attend a trip to the region of Murcia, Spain for 4 nights, including a visit to Colegio Mirasierra School (https://colegiomirasierra.com )! We will also enjoy a range of cultural experiences as well as the lovely weather and days at the beach! There is room for 12 Year 6 pupils and 3 members of staff on the trip.

We are in the process of confirming the final arrangements that include:

🚍 Transfer from school to Bristol Airport.

✈ Flight with Easyjet EJU5528, Mon 1 June, Bristol 13.10 - Alicante 16.40 [15 kg hold luggage per person, plus a little bag of hand luggage].

🏨 Hotel El Churra.

✈ Flight with Easyjet EZY2724, Fri 5 June, Alicante 22.45 - Bristol 00.15.

🚍 Transfer back to school from Bristol Airport.

Unfortunately, we are unable to take all pupils on the trip and therefore we kindly ask that you complete this form if your child is interested. There will be a selection process if more than 12 pupils wish to attend.

https://forms.office.com/e/4hLt2MNxkd

We will consider a few key factors including:

✈ Is your child eligible to receive free school meals (officially registered)?

✈ Has your child been on holiday abroad before?

✈ Has your child represented the school over the last two years?

It is likely that we will have to follow a selection process to choose the pupils who will be attending, including drawing names out of a hat if necessary. We ask in advance for your support and understanding with this. Diolch!

Although there will not be individual costs for each pupil, we are likely to organise a fundraising event during the Summer term!

**Cylchlythyr – Newsletter**

**06/02/2026**

| Diwrnodau di-wisg Ysgol/ Non-Uniform Days | Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement | Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events | Eisteddfod Yr Urdd 2026/ Urdd Eisteddfod 2026 |
|---|---|---|---|
| **13/02/26**<br><br>Dydd Miwsig Cymru – Lliwiau Cymru<br><br>Welsh Language Music Day – Wear Welsh Colours | **13/03/26**<br><br>Noson Cwis a Twmpaath Ffrindiau Pwll Coch<br><br>PTA Quiz and Twmpath (Dance)<br><br>7:30<br>Neuadd St Catherine Hall | **09/02/26**<br><br>Bl6<br><br>Gwersi Seiclo<br><br>Cycling Lessons | **10/02/26**<br><br>Eisteddfod Offerynnol<br><br>Instrumental Eisteddfod |
| **02/03/26**<br><br>Dydd Gŵyl Dewi Lliwiau Cymru neu Wisg Traddodiadol<br><br>St. David's Day Welsh Colours or Traditional Clothing | **23/03/26**<br><br>Nosweithiau Rhieni<br><br>Parents' Evenings | **10/02/26**<br><br>Bl3<br><br>PBuzz | **28/02/26**<br><br>Eisteddfod Cylch<br><br>Area Eisteddfod |
| **05/03/26**<br><br>Diwrnod y Llyfr<br><br>World Book Day | | **25/02/26**<br><br>Bl5&6<br><br>Ymweliad<br>*Yes Cymru*<br>Visit | **03/03/26**<br><br>Eisteddfod Ddawns<br><br>Dance Eisteddfod |
| **06/03/26**<br><br>Eisteddfod Ysgol – Lliwiau Llys<br><br>School Eisteddfod – House Colours | | **12/03/26**<br><br>5&6<br><br>Pêl-droed Cymysg Yr Urdd<br><br>Urdd Mixed Football | **19/03/26**<br><br>Eisteddfod Theatr<br><br>Theatre Eisteddfod |
| **20/03/26**<br><br>Diwrnod Trwynau Coch<br><br>Red Nose Day | | | **21/03/26**<br><br>Eisteddfod Sir<br><br>Regional Eisteddfod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **27/03/26**<br><br>Diwrnod ola'r Tymor<br><br>Last day of Term | | | **23-29/05/26**<br><br>Eisteddfod Yr Urdd, Ynys Môn<br><br>Urdd Eisteddfod, Anglesey |

| **Dyddiadau HMS 2025-26 INSET Dates** |
|---|
| Dydd Llun / Monday 13/04/26 |
| Dydd Llun / Monday 20/07/26 |
| Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2025-26, cliciwch yma!<br>For a list of 2025-26 term dates, click here! |

# Information Event

## Hosted by ND Community Connectors CIC
## Sponsored by All Wales Forum

**For parents/carers of children & young people on the Neurodevelopmental Service waiting list or with an Autism/ADHD diagnosis in Cardiff**

Information stalls from locally based services and support that can be accessed whilst waiting for an assessment or post diagnosis.

Supported by organisations across Local authority, Education and Third Sector/Charity.

**Location:** V21 Sbectrwm Centre@Fairwater, Bwlch Road, Cardiff, CF5 3EF

**Date:** Monday, 23rd February 2026

**Time:** 13:30 - 15:00

The event is free of charge but please book a place via Eventbrite using the QR code or this link:

https://ndsupportservicesinformationeventcardiff.eventbrite.co.uk